

Cynhadledd [SAILS](#) 2019: Profiad cynhwysol i fyfyrwyr anabl mewn addysg uwch?

Gwybodaeth am y Sesiynau

Cynnwys

10:20-11:00 Anerchiad Agoriadol	2
11:20-12:20 Sesiynau Cydamserol y Bore	3
Gweithdai	3
Sgyrsiau gwib	5
13:30-14:30 Sesiynau cydamserol y prynhawn	7
Gweithdai	7
Sgyrsiau gwib	9
14:45-15:25 Anerchiad i Gloi	11
Posterï	12
Stondinau	14

Fersiwn 1.0 29/04/2019 - Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

10:20-11:00 Anerchiad Agoriadol

Cynhwysiant - llawlyfr perchennog

Paddy Turner, Cyfarwyddwr NAPD, y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer ymarferwyr anabledd a chynhwysoldeb mewn addysg bellach ac addysg uwch

Mae nifer o ffactorau sy'n ysgogi datblygiad ymarfer cynhwysol mewn addysg uwch, er enghraifft, arweiniad gan asiantaethau ansawdd a safonau addysgu cenedlaethol, ymchwil, neu genhadaeth neu ddatganiadau strategaeth prifysgolion unigol. Ceir achos busnes cadarn, dadl gref o ran safon addysgu ac, yn bwysicaf oll, ceir safbwyntiau moesol a moesegol na ellir dadlau yn eu herbyn.

Yn wir, gofynnwch i unrhyw un, a byddai'n anodd dod o hyd i rywun nad yw'n cefnogi egwyddorion ymarfer dysgu ac addysgu cynhwysol. Felly, beth sy'n ein rhwystro? Pam mae ymchwil yn dal i ddangos bylchau cyrhaeddiad ar gyfer myfyrwyr anabl a grwpiau eraill, yn benodol rhai o gefndir BAME (Mountford-Zimdars et al, 2015)? Pam mae digwyddiadau fel hwn yn cael eu cynnal o hyd er mwyn ceisio cyflawni cynnydd yn y maes?

Mae'n bryd diffinio'r hyn rydym yn ei olygu wrth ddefnyddio'r termau ymarfer cynhwysol/cynhwysiant a hygyrchedd. Os nad ydym yn deall ein hamcanion yn llwyr, ni fydd llawer o gynnydd ystyrlon yn bosib. Yn yr anerchiad hwn, gall mynd i'r afael â rhwystrau cudd allweddol ddatgloi ein meddyliau a'u rhyddhau i ganolbwyntio ar ffyrdd o drawsnewid rhwystrau strwythurol dwfn i newid, yn hytrach na cheisio cynnwys unigolion, neu ddarparu ar eu cyfer, mewn system o ymarfer addysgol nad yw wedi newid yn ei hanfod.

Er mai rheolwyr gweithredol sy'n llunio strategaeth, mae ein cyfrifoldeb ni i ddylanwadu'n parhau'n hollbwysig. Mae harneisio pŵer dysgu drwy brofiad a llais y myfyrwyr yn creu effeithiau ymdonni a newid graddol mewn meddylfryd ac ymddygiad diwylliannol sydd, yn y pen draw, yn arwain at bwynt di-droi'n-ôl ar gyfer gwreiddio newid parhaol.

Bywgraffiad

Paddy Turner (SFHEA; PGCLTHE; BA (Anrh.))

Mae gan Paddy dros 20 mlynedd o brofiad mewn addysg uwch ac mae wedi bod yn angerddol drwy gydol y cyfnod hwnnw am wella mynediad a chynhwysiant yn yr amgylchedd academaidd a diwylliannol. Dechreuodd ym maes cymorth i fyfyrwyr anabl, gan gefnogi myfyrwyr, yn datblygu ac yn rheoli gwasanaethau ac yn gweithio i wella ymarfer addysgu cynhwysol dros lawer o flynyddoedd, cyn symud i faes datblygu addysg. Bellach mae Paddy yn athro addysg uwch cymwysedig ac yn Uwch-gymrawd yr Academi Addysg Uwch. Mae'n gweithio i gefnogi cydnabyddiaeth academaidd broffesiynol ac i hyrwyddo cymrodoriaeth yr Academi Addysg Uwch, wrth barhau i hybu a datblygu arferion dysgu ac addysgu cynhwysol ym Mhrifysgol Sheffield Hallam.

Mae gan Paddy broffil cenedlaethol hefyd yn sgil helpu i sefydlu'r gymdeithas broffesiynol gyntaf ar gyfer swyddogion anableded ym 1999 (NADO gynt, NADP bellach) a chydlynu'r Consortiwm Gwasanaethau Cymorth Addysg Uwch gyda Phobl Fyddar (CHESS) 2000-2003. Mae NADP bellach yn sefydliad aelodaeth llwyddiannus â 1300 o aelodau o holl brifysgolion blaenllaw'r DU. Bu'n fraint gan Paddy fod yn aelod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr ers 2005, a bu'n Gadeirydd ddwywaith, y cyfnod mwyaf a ganiateir, rhwng 2011 a 2018. Yn ogystal â chefnogi datblygiad proffesiynol ymarferwyr anableded a gwelliant gwasanaethau'n genedlaethol, mae hefyd yn rhyngweithio â'r Llywodraeth, SLC ac amrywiaeth eang o grwpiau rhanddeiliaid eraill i ddylanwadu ar brosesau gwneud penderfyniadau gweithredol a llunio polisi.

O ganlyniad i'w brofiad helaeth, cafodd ei benodi'n aelod o Is-bwyllgor Ymarfer Cynhwysol Grŵp Arweinyddiaeth Sector y Myfyrwyr Anabl ac yn gydlynnydd Grŵp Diddordeb Arbennig mewn Ymarfer Cynhwysol y rhwydwaith RAISE (<http://www.raise-network.com/>). Mae hefyd wedi cael llawer o wahoddiadau i siarad am ymarfer cynhwysol mewn digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol.

11:20-12:20 Sesiynau Cydamserol y Bore

Gweithdai

Eich dosbarth yn 2020: Sut i ragweld a diwallu anghenion cynhwysol myfyrwyr drwy ymyriadau prif ffrwd ymarferol

Ben Watson, Prifysgol Caint, ac Ivan Newman, y Brifysgol Amaethyddol Frenhinol

Gofynnir i gyfranogwyr gynllunio ymyriadau prif ffrwd a chynllun gweithredu ategol i'w rhoi ar waith, gan ystyried ymagwedd bresennol eu sefydliadau penodol ac i ba raddau mae arferion dysgu ac addysgu cynhwysol yn rhan gynhenid ohonynt. Mae'r sesiwn hon yn cyflwyno'r pwnc gan ddefnyddio ystadegau HEFCE, canfyddiadau ymchwil PhD sy'n cynnwys dadansoddiad manwl o arferion cynhwysol ym mhob un o'r 133 o ddarparwyr addysg uwch yn Lloegr ac mae'n defnyddio arferion cynhwysol Prifysgol Caint fel astudiaeth achos i annog cyfranogwyr i ystyried a datblygu eu modelau eu hunain.

Cynulleidfa darged: Teimlwn fod rhaid i bawb mewn sefydliad chwarae rhan i feithrin ymagwedd wirioneddol gynhwysol. Felly, credwn y bydd neges y sesiwn, sef cynllunio cynhwysol a phwyslais ar ddatblygu a blaenoriaethu ymyriadau prif ffrwd ymarferol er lles ein holl fyfyrwyr, yn berthnasol i bob grŵp o fewn darparwyr addysg uwch.

Mynd y tu hwnt i'r label: Ail-fframio'r naratif ynghylch cymorth anabledd ac ymarfer cynhwysol

Abby Osborne a Robert Eaton, Prifysgol Caerfaddon

Bydd y gweithdy un awr hwn yn darparu cyfle i feirniadu diffiniadau presennol o gynhwysiant drwy fynd y tu hwnt i'r labeli sydd, yn aml, yn cael eu cysylltu ag anableddau penodol. Bydd y sesiwn yn cynorthwyo ymarferwyr i symud y tu hwnt i syniadau o 'wahaniaeth unigol', gan adnabod y patrymau sy'n bodoli y tu hwnt i labeli o'r fath. Gan dynnu ar brofiadau myfyriwr anabl, bydd y sesiwn yn archwilio amrywiaeth o strategaethau ymarferol a fydd o les i fyfyrwyr ag anableddau ond hefyd i'r gymuned ehangach o fyfyrwyr. Bydd gweithgareddau'r gweithdy yn cyflwyno ystod o ymyriadau ymarferol y gellir eu trosglwyddo a'u gwreiddio mewn amrywiaeth o gyd-destunau dysgu. Caiff staff gyfle i archwilio'r ymyriadau a'r strategaethau hyn yng nghyd-destun disgyblaeth eu pwnc. Drwy weithio gyda'r fframwaith a gyflwynir, bydd cyfranogwyr mewn sefyllfa well i ddeall sut gallant ddiwallu anghenion amrywiol eu myfyrwyr o fewn cyd-destun ehangach cynhwysiant yn eu sefydliadau eu hunain. Caiff cyfranogwyr gyfle i archwilio amrywiaeth o offer a strategaethau i roi ymarfer dysgu ac addysgu cynhwysol ar waith, rhai sydd wedi'u cynllunio i fod yn drosglwyddadwy ac yn gynaliadwy ar gyfer staff â llwyth gwaith cynyddol drwm.

Cynulleidfa Darged: Bydd y sesiwn hon yn hynod berthnasol i staff academaidd a gwasanaethau proffesiynol sydd naill ai'n addysgu myfyrwyr neu yn eu cefnogi gyda'u dysgu. Bydd y sesiwn yn canolbwyntio ar atebion er mwyn diwallu anghenion amrywiol dysgwyr drwy wreiddio ymarfer cynhwysol mewn ffordd sy'n effeithiol i fyfyrwyr ac yn gynaliadwy i staff. Bydd y sesiwn hefyd yn berthnasol i bawb sydd â diddordeb mewn anabledd mewn addysg neu ffyrdd effeithiol o brif ffyrddio dysgu ac addysgu cynhwysol.

Y Dysgwr Cynorthwyedig

Kristina Addis, Prifysgol Abertawe

Mae dysgu ac addysgu cynhwysol mewn amgylchedd addysg uwch yn caniatáu mwy o gyfranogiad gan fyfyrwyr ac felly mae'n arwain at well cyfraddau cadw a dilyniant. Bydd y gweithdy yn archwilio dysgu dan arweiniad myfyrwyr, neu ddysgu cynorthwyedig, a sut gall fod o fudd i fyfyrwyr ag anableddau. Bydd y gweithdy yn darparu sylfaen ddamcaniaethol mewn dysgu dan arweiniad myfyrwyr, gan gynnwys Chwe Egwyddor Addysgu Landmark, Dysgu Gweithredol a damcaniaeth Niwroblastigedd. Wedyn bydd trafodaeth agored am sut gellir rhoi'r cysyniadau hyn ar waith yn yr amgylchedd dysgu. Er y bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar fyfyrwyr anabl, mae'r cysyniadau'r un mor berthnasol i fyfyrwyr yn gyffredinol. Nod y gweithdy yw darparu cyngor ar ddefnydd ymarferol o lenyddiaeth a pholisïau ym maes cynhwysoldeb, ynghyd ag awgrymiadau ynghylch rhoi damcaniaeth ar waith a lledaenu arfer da.

Cynulleidfa Darged: Bydd y sesiwn yn cyflwyno'r cysyniadau damcaniaethol a fyddai'n gyfarwydd i'r rhan fwyaf o staff cymorth o'r Ganolfan Llwyddiant Academaidd er enghraifft, ond a allai fod yn newydd i rai aelodau staff academaidd. Darperir diffiniadau, gwybodaeth ychwanegol ac adnoddau i alluogi cyfranogwyr i archwilio'r pwnc ymhellach. Byddai cynnwys y sesiwn hon o ddiddordeb i unrhyw un sy'n gweithio mewn rôl addysgu gyda myfyrwyr, neu'r rhai sy'n gweithio mewn rôl weinyddol ond sy'n dylanwadu ar strwythur cwrs. Byddai hyn yn cynnwys staff addysgu, staff cymorth ac arweinwyr cwrs.

Offer dysgu wedi'u personoli i gefnogi eich myfyrwyr addysg uwch

Nicole Reid, [Texthelp](#)

Yn y sesiwn hon, byddwn yn archwilio sut mae offer Texthelp, megis Read&Write, EquatIO® a Browserlound, yn cydweithio i greu 'pecyn cymorth' technoleg i gefnogi myfyrwyr o'r funud maent yn ystyried astudio yn eich sefydliad hyd at ennill eu gradd.

Beth bynnag mae myfyrwyr yn ei astudio - o Saesneg neu'r dyniaethau i fathemateg, y gwyddorau a thechnoleg - mae offer Texthelp yn gwneud darllen, ysgrifennu a mathemateg yn haws ac yn fwy plaserus ar ddyfeisiau digidol. Bydd y sesiwn hon yn dangos sut mae'r offer hyn yn gweithio ar bob platform, a gall myfyrwyr eu haddasu i ddarparu'r cymorth gorau ym mhob agwedd ar eu gyrfa yn y brifysgol, i ddarparu profiad dysgu mwy cyfoethog a chynhwysol.

Ymunodd Nicole â Texthelp yn 2016 ac mae'n gyfrifol am y sectorau addysg uwch a'r Lwfans i Fyfywrwr Anabl (DSA) yn y cwmni. Fel rhan o'i gwaith ym maes DSA, mae'n ymwneud yn sylweddol â gwaith Cymdeithas Technoleg Gynorthwyol Prydain (BATA) i sicrhau bod gan bob myfyriwr fynediad i dechnoleg gynorthwyol y gallant ddibynnu arni yn eu hastudiaethau. Wrth gydweithio â BATA, mae wedi bod yn rhan o ymgyrchu i ddileu rhwystrau i fynediad i addysg uwch (gan gynnwys toll y Llywodraeth o £200 ar liniaduron myfyrwyr sydd wedi denu beirniadaeth helaeth).

Mae Nicole yn credu bod pob myfyriwr yn gallu elwa o dechnoleg gynorthwyol wrth astudio am radd ac ar ôl graddio. Os yw prifysgolion yn mabwysiadu ymagwedd gynhwysfawr o ran dylunio ar gyfer dysgu, gallant sicrhau nad yw unrhyw fyfyriwr dan anfantais, waeth beth ei anghenion.

Sgyrsiau gwib

Cwricwla Cynhwysol mewn Addysg Uwch: Offeryn Archwilio Cydraddoldeb y Cwricwlwm

Alys Einion, Prifysgol Abertawe

Mae Offeryn Archwilio Cydraddoldeb y Cwricwlwm Prifysgol Abertawe'n ymdrin yn uniongyrchol â chysyniadau craidd cynhwysoldeb, cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn

addysgeg addysg uwch, cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm, ac asesu. Gellir ei ddefnyddio i archwilio cwricwla presennol fel rhan o werthuso a gwella gwasanaeth, ac fel fframwaith a meincnod ar gyfer cynllunio a datblygu cwricwlwm. Bydd y papur hwn yn trafod ac yn archwilio'r offeryn, sut gellir ei ddefnyddio a'i heriau, gan archwilio tirwedd eang ac amrywiol addysg uwch gynhwysol.

Cynulleidfa Darged: Mae hyn yn hynod berthnasol i staff addysgu, ond byddai staff mewn pob math o rôl yn elwa o ddeall cydraddoldeb, amrywiaeth, cynwysoldeb a chroestoriadaeth yn well.

Mannau astudio hygyrch: Newid cyfeiriad o ystafell benodol ar gyfer Technoleg Gynorthwyol tuag at ymagwedd fwy cynhwysol at gymorth anableded yn y llyfrgell.

Sarah Fleetwood-Florey, UWE Bryste

Cyflwyniad byr am sut mae symud yr ystafell technoleg gynorthwyol yn ystod gwaith gweddnewid y llyfrgell yn ddiweddar wedi arwain at ddarpariaeth well ar gyfer myfyrwyr anabl. Byddwn yn rhannu ein profiad o'r broses ymgynghori, y newidiadau rydym wedi'u gwneud yn ein gwasanaeth o ganlyniad, y manteision i'n myfyrwyr a'r gwersi rydym wedi'u dysgu. Bydd pwyslais y sesiwn hon ar greu gofod llyfrgell sy'n diwallu anghenion unigolion gan sicrhau bod cymorth arbenigol ar gael yn y fan a'r lle.

Cynulleidfa Darged: Staff llyfrgell, staff cymorth a phawb sy'n ymddiddori mewn manau astudio hygyrch.

Datblygu Terminoleg Daearyddiaeth a Daeareg yn Iaith Arwyddion Prydain (BSL).

Rhian Meara, Prifysgol Abertawe

Mae'r Prosiect Geirfa BSL, a reolir gan Ganolfan Synhwyrdd yr Alban ym Mhrifysgol Caeredin, yn canolbwyntio ar ddatblygu terminoleg wyddonol yn iaith Arwyddion Prydain i'w defnyddio yn y sectorau addysg gynradd, uwchradd ac addysg bellach ac uwch gyda myfyrwyr byddar a thrwm eu clyw yn y DU. Hyd yn hyn, mae'r prosiect wedi datblygu 850 o arwyddion a diffiniadau newydd ym meysydd Cemeg, Ffiseg, Bioleg, Seryddiaeth a Mathemateg. Mae'r prosiect hefyd wedi cyfieithu arholiadau i BSL ar gyfer myfyrwyr ledled yr Alban. Mae cam presennol y prosiect wedi canolbwyntio ar ddatblygu terminoleg ar gyfer pynciau ym meysydd Daearyddiaeth a Daeareg. Mae mwy na 189 o arwyddion newydd wedi cael eu datblygu yn y pynciau hyn, gan gynnwys y tywydd, afonydd, mapiau, peryglon naturiol a Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol. Datblygwyd yr arwyddion gan grŵp ffocws ag arbenigedd mewn Daearyddiaeth a Daeareg, Cemeg, Ecoleg, Ieithyddiaeth BSL ac Addysg i'r Byddar ac mae pob aelod o'r grŵp yn ddefnyddwyr byddar sy'n rhugl mewn BSL.

Caiff cyfranogwyr gyflwyniad i eirfa BSL a bydd croeso iddynt ddefnyddio ei hadnoddau. Hefyd, cânt drosolwg byr o addysg i'r byddar yn y DU.

Cynulleidfa Darged: Mae'r sesiwn hon yn addas i bawb sydd â diddordeb yn laith Arwyddion Prydain a chyfathrebu â phobl fyddar a thrwm eu clyw.

Dyslecsia, Entrepreneuriaeth ac Addysg: Beth sydd gan fyfyrwyr â dyslecsia i'w ddweud?

Margaret Meehan, Prifysgol Abertawe

Darperir cyflwyniad byr i'r ymchwil diweddaraf ym maes Dyslecsia ac Entrepreneuriaeth. Trafodir rhai o'r nodweddion sylfaenol a'r anawsterau a wynebwr gan unigolion â dyslecsia hefyd. Bu 17 o fyfyrwyr o ddwy brifysgol, un mewn dinas yng Nghymru ac un yng nghefn gwlad Lloegr, yn rhan o'r ymchwil. Cyflwynir y prif themâu o gyfweiliadau lled-strwythuredig â myfyrwyr â dyslecsia sy'n astudio busnes yn y brifysgol. Yn benodol, beth fyddai'n helpu myfyrwyr yn y brifysgol i ddod yn entrepreneuriaid. Mae dyslecsia gan 10% o'r boblogaeth ac, yn y brifysgol, mae tua 1-2% o fyfyrwyr yn profi dyslecsia.

Cynulleidfa Darged: Os ydych yn addysgu (neu'n bwriadu addysgu) neu'n cynorthwyo myfyrwyr, gallai'r sgwrs hon gynnig syniadau i chi o ran cynllunio cyrsiau a darlithoedd neu gymorth i'ch myfyrwyr.

13:30-14:30 Sesiynau cydamserol y prynhawn

Gweithdai

Defnyddio rhith-wirionedd i helpu myfyrwyr anabl sy'n astudio cyfrifeg a threthiant

Terry Filer a Marc Holmes, Prifysgol Abertawe

Bydd y gweithdy hwn yn rhoi cyfle i gyfranogwyr gael blas ar ddysgu rhithwir drwy brofiad, ar sail astudiaethau achos ym meysydd cyfrifeg a threthiant. Caiff cyfranogwyr gyfle i brofi manteision defnyddio'r dechnoleg hon a gallant ei haddasu i'w defnyddio mewn unrhyw bwnc.

Cynulleidfa Darged: Byddai'r sesiwn hon o ddiddordeb i'r holl gyfranogwyr sy'n ymwneud â dysgu neu addysgu unrhyw bwnc.

Gwreiddio Cynwysoldeb wrth Ddylunio Cyrisiau, drwy Restr Wirio Ar-lein ar gyfer Dylunio Modiwlau/Cyrisiau

Daniela de Silva, Prifysgol Westminster

Bydd y gweithdy hwn yn rhoi cyflwyniad manwl i gyfranogwyr i'r rhestr wirio cyrsiau/modiwlau cynhwysol a luniwyd ym Mhrifysgol Westminster. Nod y sesiwn hon yw rhoi cyfle i gyfranogwyr gael profiad ymarferol o'r rhestr wirio cynwysoldeb ar-lein a chyfle i drafod agweddau gwahanol ar y rhestr wirio drwy chwarae creadigol â Lego. Bydd manteision cymryd rhan yn y sesiwn hon yn cynnwys trafod cynllunio cyrsiau mewn ffordd ryngweithiol iawn a chael adborth gwerthfawr ar gynllunio modiwlau/cyrisiau i'w ddefnyddio yn eich gwaith.

Cynulleidfa Darged: Y gynulleidfa darged yw staff academiaidd, ond mae croeso i'r holl staff (llyfrgell, y gofrestrfa, staff cymorth).

Ymagwedd Ymarfer Cynhwysol at wella profiad y myfyrwyr

Ian Carter a Debbie Gibberd, Prifysgol Brighton

Mae'r gweithdy hwn yn disgrifio'r llwybr a fabwysiadwyd i ddatblygu Ymarfer Cynhwysol ym Mhrifysgol Brighton. Mae'r sesiwn yn amlinellu'r cysyniadau a'r cerrig milltir allweddol ac yn gofyn i'r cyfranogwyr gymharu hyn â'u profiad eu hunain a rhannu syniadau ar gyfer datblygu eu meysydd nhw yn y dyfodol. Byddwn yn dangos sut mae dulliau Ymarfer Cynhwysol yn cynnwys ystyriaethau ar gyfer holl adrannau sefydliadau addysg uwch, a sut mae hyn yn gwella cymorth unigol ar gyfer myfyrwyr anabl.

Cynulleidfa Darged: Bydd y gweithdy o fudd i staff ym mhob mathau o rolau mewn prifysgol, gan gynnwys rolau academiaidd, proffesiynol a rheoli. Byddwn yn dangos bod Ymarfer Cynhwysol yn strategaeth sy'n gweithio orau pan gaiff pob rhan o'r sefydliad ei chynnwys.

Strategaethau i gefnogi myfyrwyr â gorbryder. Prosiectau i'w defnyddio mewn amgylcheddau ymarfer a lleoliadau prifysgol

Deborah Rowberry a Shelly Hill, Prifysgol Abertawe

Mae'r adran nyrsio (yn debyg i lawer o adrannau eraill) yn ymdrin â niferoedd cynyddol o fyfyrwyr sy'n ymdopi â gorbryder ar sawl lefel. Mae'r Cynllun Bydi a'r Prosiect Lighthouse Club yn cynnig cyfle i gefnogi'r myfyrwyr hyn, drwy eu cyfeirio at adnoddau penodol neu ganiatáu iddynt rannu eu profiadau er mwyn dod o hyd i atebion.

Mae iechyd meddwl myfyrwyr yn bryder cynyddol i bob adran a choleg (nid yw hyn yn cynnwys myfyrwyr sydd wedi cael diagnosis o gyflwr iechyd meddwl neu sydd â

phroblemau mwy difrifol). Nod y prosiectau hyn yw mynd i'r afael â rhai o'r pethau sy'n achosi straen i fyfyrwyr, lle nad ydynt bob amser yn gwybod lle i geisio cymorth.

Cynulleidfa Darged: Mae croeso i bawb. Mae'r prosiectau hyn yn fuddiol mewn llawer o sefydliadau a gellir eu hefelychu os yw hynny'n briodol. Anogir pawb i gymryd rhan, hyd yn oed os mai ymwybyddiaeth well o'r heriau mae myfyrwyr yn eu hwynebu pob dydd yw'r unig ganlyniad.

Strategaethau Astudio ar gyfer Cymryd Nodiadau Effeithiol gan ddefnyddio Meddalwedd Audio Notetaker Sonocent

Helena Harrison, [Sonocent](#)

Mae gan wybodaeth rôl hollbwysig yn ein byd ac, wrth i dechnoleg ddatblygu, rydym yn symud o destun fel prif ffynhonnell gwybodaeth i'r gair llafar, fideo a sain.

I helpu myfyrwyr i ddysgu o'r wybodaeth hon, mae cymryd nodiadau effeithiol yn hanfodol, ond mae'r dulliau traddodiadol o ysgrifennu nodiadau yn achosi her yn aml, a'r canlyniad yw nodiadau o ansawdd gwael nad ydynt yn addas ar gyfer astudio. Mae Sonocent yn gweithio i ddatrys y broblem hon drwy ddarparu'r offer mae eu hangen ar fyfyrwyr i weithio'n effeithiol gyda'r iaith lafar mewn unrhyw amgylchedd dysgu, gan eu galluogi i ddysgu mwy ac i astudio'n llwyddiannus.

Yn y sesiwn hon, byddwn yn dangos i chi sut mae Sonocent yn rhannu'r broses o gymryd nodiadau'n gamau hwylus, gan alluogi myfyrwyr i roi eu holl sylw i wrando a deall yn y dosbarth, yn hytrach na chanolbwyntio ar y broses ysgrifennu.

Mae Helena o Sonocent wedi bod yn hyfforddi ac yn cefnogi amrywiaeth eang o unigolion niwroamrywiol sy'n wynebu heriau dysgu gwahanol ers bron 20 o flynyddoedd. Ar hyn o bryd, prif rôl Helena yw arddangos strategaethau astudio a darparu hyfforddiant ar Audio Notetaker a'r ap Sonocent Link i brifysgolion, colegau a chanolfannau asesu anghenion ledled de Lloegr. Ochr yn ochr â hyn, mae Helena hefyd yn darparu hyfforddiant a chymorth TG un i un i helpu myfyrwyr a gweithwyr anabl i fanteisio i'r eithaf ar y technolegau cynorthwyol maent wedi'u derbyn drwy'r Lwfans i Fyfyrwyr Anabl a chynlluniau Mynediad i Waith.

Sgyrsiau gwib

Ymarfer gorau ym maes adnoddau hygyrch

Martina Webber, Prifysgol Abertawe

Bydd y sesiwn fer hon yn darparu canllaw syml i arfer gorau wrth lunio dogfennau hygyrch mewn fformatau MS Word, PowerPoint a PDF. Bydd y pwyslais ar yr egwyddor 'cynllunio

cynhwysol' - creu adnoddau sy'n ystyried cynwysoldeb a hygyrchedd o'r cychwyn cyntaf er lles amrywiaeth eang o ddysgwyr. Os caiff adnoddau eu cynllunio i fod yn gynhwysol, bydd angen llai o addasiadau arnynt i'w gwneud yn hygyrch i ddefnyddwyr ag anghenion penodol. Drwy gymryd rhan yn y sesiwn hon, bydd cyfranogwyr yn derbyn awgrymiadau syml ynghylch arddull, a fydd yn eu helpu i fod yn fwy cynhwysol wrth greu eu hadnoddau.

Cynulleidfa Darged: Bydd y sesiwn hon o gymorth i bawb sy'n creu adnoddau i fyfyrwyr a staff.

Trysorau cudd: y dechnoleg gynorthwyol nad oeddech yn gwybod ei bod gennych

Martyn Hoskins, UWE Bryste

Mae llawer o'r dyfeisiau rydym yn eu cludo o fan i fan, megis cyfrifiaduron, ffonau a llechi, yn cynnwys opsiynau hygyrch ardderchog. Yr hyn sy'n syfrdanol yw nad yw llawer o bobl yn ymwybodol ohonynt. Yn ystod y sesiwn, cawn gipolwg ar rai o'r rhain a, gobeithio, cewch eich ysbrydoli i archwilio ymhellach ar ôl y sesiwn.

Cynulleidfa Darged: Byddai'r sesiwn hon yn ddefnyddiol i bawb.

Cyfleu'r neges: gweithio tuag at brofiad darllen cynhwysol drwy ddogfennau hygyrch (astudiaeth achos llyfrgell UWE Bryste)

Anja Badock, UWE Bryste

Mae'r gallu i ddarllen deunyddiau dysgu, addysgu a llyfrgell yn effeithiol yn hanfodol i lwyddiant pob myfyriwr mewn addysg uwch. Er gwaethaf hyn, gall fod yn anodd sicrhau bod yr holl adnoddau yn hygyrch i fyfyrwyr anabl ag amrywiaeth o anghenion. Bydd y sgwrs hon yn cynnig astudiaeth achos gryno o sut mae tîm cymorth anabled bach, mewn llyfrgell sy'n cynnal gwasanaeth fformatau amgen sefydledig, yn gweithio i ledaenu eu gwybodaeth a'u hangerdd dros ddogfennau hygyrch â'r nod o greu profiad darllen mwy cynhwysol ar gyfer myfyrwyr yn y brifysgol gyfan. Dylai'r sgwrs hon gynnig cyfle i chi fyfyrwyr ar eich dealltwriaeth eich hun o ddogfennau hygyrch a sut gellir cyflawni arfer gorau ar raddfa fawr.

Cynulleidfa Darged: Pawb sy'n llunio dogfennau i'w rhannu â myfyrwyr (er enghraifft, llawlyfrau a chanllawiau, deunyddiau llyfrgell, nodiadau cyflwyniad, deunyddiau addysgu). Gall fod o ddiddordeb arbennig i staff sy'n gweithio i rannu arfer gorau o ran llunio dogfennau hygyrch yn eu tîm, eu hadran neu i'r sefydliad cyfan.

Cymuned ymarfer ac adnoddau ar gyfer staff sy'n cefnogi myfyrwyr ag anableddau

Paula Row, Prifysgol Abertawe

Bydd y sesiwn yn esbonio'r manteision i staff a myfyrwyr sy'n deillio o greu Cymuned Ymarfer ar gyfer staff sy'n cefnogi myfyrwyr ag anableddau; bydd yn rhoi trosolwg o'r hyn sy'n digwydd yn y cyfarfodydd Cymuned Ymarfer a gynhelir sawl gwaith y flwyddyn; a bydd yn cyflwyno'r adnoddau a ddatblygwyd ar gyfer staff.

Cynulleidfa Darged: Pawb sydd â rôl neu ddiddordeb mewn cefnogi myfyrwyr ag anableddau, gan gynnwys cydlynwyr anabledd, staff gwasanaethau cymorth cynhwysol i fyfyrwyr, staff addysgu, staff llyfrgell, staff gwasanaethau proffesiynol, ac ymchwilwyr sy'n rhyngweithio â myfyrwyr.

14:45-15:25 Anerchiad i Gloi.

Pan nad yw hawliau'n ddigon: gwrthdaro rhwng cynhwysiant a datblygiadau ym maes ymarfer gorau.

Suanne Gibson, Athro Cysylltiol a Chyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu Cysylltiol, Prifysgol Plymouth, Sefydliad Addysg

'Mae 'ehangu cyfranogiad', 'addysgeg gynhwysol', 'mynediad', 'amrywiaeth' 'codi dyheadau' yn dermau polisi a ddefnyddir yn helaeth ac yn destun disgwrs academaidd yn y gymuned addysg ryngwladol. Cânt eu defnyddio wrth gyfeirio at faterion cyfiawnder cymdeithasol a chydarddoldeb (neu wrth fynd i'r afael â hwy) o fewn prifysgolion rhyngwladol a rhyngddynt. Gwyddys bod yr ymarfer sy'n deillio o hyn yn achosi problemau, a'i fod yn aflwyddiannus mewn llawer o achosion, gan adlewyrchu camddechongliadau o gynhwysiant.

Yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, gwelwyd llawer o newidiadau ym myd addysg uwch yn y DU, ac mae rhai o'r newidiadau mwyaf arwyddocaol hyn yn gysylltiedig â'r term hollbresennol: 'cynhwysiant'. Bydd fy mhapur yn gosod yr ymadrodd hwn yn ei gyd-destun hanesyddol ac yn myfyrio ar y rhesymau pam y daeth yn gyfeiriad poblogaidd ym myd addysg. Byddaf yn trafod y cynnydd yn ei ddefnydd - sy'n gysylltiedig yn rhannol â chamddefnydd polisi - ei wladychiad a ffurfiau diwygiedig amrywiol. Gan ddeillio o faes astudiaethau beirniadol o anabledd, byddaf yn llunio beirniadaeth ar lawlyfrau addysgu 'cynhwysol', gan ystyried yn feirniadol y disgwrs ynghylch ehangu mynediad i addysg brifysgol â'i chysylltiad â neo-ryddfrydiaeth.

Rydym yn byw mewn cyfnod newidiol a heriol, ac mae hynny'n fwy perthnasol byth os ydym yn ein huniaethu ein hunain a'n gwaith yn agored â 'chyfiawnder cymdeithasol'. Mae Giroux (2003, 11) yn dadlau bod unrhyw fath o addysg sydd â'r bwriad o fynd i'r afael â

chyfiawnder cymdeithasol yn 'ymarfer moesol a gwleidyddol'. Mae gwaith Ahmed (2012) yn datblygu hyn, gan awgrymu bod arferion gorau yn cynnwys gwrthsefyll y llif o ffurfiau ar feddylfryd a/neu ymarfer cynhwysol sefydliadol, ar sail camddechongliad, sy'n dod o'r brig i lawr.

Mae angen disgwrs wleidyddol newydd am gynhwysiant, un sy'n galluogi rhanddeiliaid addysg uwch i fyfrio ac ailystyried sut mae'r 'arall' yn cael ei ddechongli, yr agweddau problemus ar system ddeuaidd 'amrywiol' a 'normal' a sut mae'r termau hyn yn ymddangos yn ein gwaith, ynghyd â'u heffaith. Cyflwynir ymchwil cyhoeddedig a barn myfyrwyr am ddatblygiadau ym maes arfer gorau hefyd.

Bywgraffiad

Mae Dr Suanne Gibson yn Athro Cysylltiol ym Mhrifysgol Plymouth, yn Gyfarwyddwr Cysylltiol Dysgu ac Addysgu yn y Sefydliad Addysg ac mae hefyd yn Gyd-arweinydd y radd BA mewn Astudiaethau Addysg. Ei meysydd addysgu ac ymchwil arbenigol yw 'anabledd', 'anghenion addysgol arbennig' 'cynhwysiant' ac addysgeg feirniadol. Mae hi'n tiwtora ac yn darlithio i fyfyrwyr israddedig, meistr a PhD ac mae wedi cyhoeddi'n helaeth ym meysydd anghenion addysgol arbennig, astudiaethau anabledd beirniadol a dysgu ac addysgu mewn addysg uwch.

Dyfarnwyd pedair cymrodoriaeth addysgu i Dr Gibson ym Mhrifysgol Plymouth; yn 2011, cafodd ei henwi'n 'Diwtor Personol Rhagorol' gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Plymouth; yn 2012, cafodd ei gwaith ei gydnabod yn genedlaethol pan dderbyniodd ei Chymrodoriaeth Addysgu Genedlaethol gan yr Academi Addysg Uwch; yn 2013, dyfarnodd yr Academi Addysg Uwch Ysgoloriaeth Ryngwladol iddi o'r enw: "*Developing a critically inclusive pedagogy of relationship for the retention and success of 'diverse' undergraduate students or 'undergraduate students at risk of exclusion'*" ac yn 2014 cafodd ei gwahodd gan Gymdeithas Frenhinol y Celfyddydau i fod yn Gymrawd (FRSA). Mae'n ymgymryd â gwaith ymchwil ac addysgu gyda chydweithwyr yn UDA, Cyprus, Seland Newydd ac Awstralia, gan ymdrin â chwestiynau ym meysydd cyfiawnder cymdeithasol ac 'amrywiaeth' ac mae'n gweithio fel 'Mentor Rhaglen Ysgrifennu' ar [Raglen Ysgrifennu Awstralia ar gyfer Ymarferwyr Cydraddoldeb ac Ehanqu Cyfranogiad](#)

Ar hyn o bryd, mae Suanne yn ysgrifennu gyda'r Athro Alison Cook-Satha am drugaredd wedi'i wleidyddoli a phartneriaeth â myfyrwyr mewn addysg uwch.

Poster

Ymchwiliad i effeithiolrwydd gwasanaethau cymorth ym Mhrifysgol Abertawe sy'n ceisio gwella rhagolygon cyflogaeth myfyrwyr â chyflwr ar y sbectrwm awtistig.

Alison Willock, Prifysgol Abertawe

Mae myfyrwyr yn mynychu prifysgol am sawl rheswm gwahanol; yn aml er mwyn cynyddu gwybodaeth a sgiliau i wella rhagolygon cyflogadwyedd. Mae'r arolwg Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch (The Destinations of Leavers from Higher Education, DLHE), sydd yn recordio'r canlyniadau i fyfyrwyr chwe mis ar ôl cymhwyso o'u cyrsiau addysg uwch, yn awgrymu i fyfyrwyr sydd â Chyflyrau Sbectwm Awtistiaeth (ASC) â chanlyniadau cyflogadwyedd gwael o gymharu â myfyrwyr sydd ag Anawsterau Dysgu Penodol (SpLD). Roedd yr archwiliad yma wedi'i anelu at ddeall y rhwystrau ac ystyried y strategaethau gallai helpu gwella rhagolygon y myfyrwyr sydd â Chyflyrau Sbectwm Awtistiaeth (ASC). Mae'r darganfyddiadau yn awgrymu byddai darpariaeth cyflogadwyedd yn elwa o fod yn fwy unigolledig gan fod myfyrwyr sydd â Chyflyrau Sbectwm Awtistiaeth (ASC) ag anghenion penodol ac unigryw.

Cynulleidfa Darged: Yr holl staff, gan fod pob unigolyn yn cyfrannu at wella rhagolygon myfyrwyr ag anabledau.

ADHD a Chynwysoldeb

Kristina Addis, Prifysgol Abertawe

Bydd y poster hwn yn archwilio elfennau allweddol Anhwylder Diffyg Canolbwyntio Gorfywogrydd (ADHD) a nodi rhai o'r prif heriau y mae'n rhaid i fyfyrwyr ag ADHD eu goresgyn. Gan gyfeirio at lenyddiaeth a phrofiadau ymarferol gyda myfyrwyr, caiff argymhellion a thystiolaeth o arfer da eu rhannu â'r nod o ddangos sut gellir ehangu cynwysoldeb.

Cynulleidfa Darged: Byddai'r poster hwn o fudd i staff academaidd sy'n addysgu myfyrwyr yn bennaf, ond mae dealltwriaeth o sut i gefnogi myfyrwyr ag ADHD yn berthnasol i bawb mewn gwirionedd. Er enghraifft, gall staff llyfrgell, sy'n helpu myfyrwyr bob dydd gyda'u hymchwil neu i gyfeirnod, elwa o well ymwybyddiaeth o sut i helpu myfyrwyr.

Tywys myfyrwyr y Coleg Gwyddoniaeth drwy ddyddiau cynnar bywyd yn y Brifysgol

Sarah Roberts a Connor Abraham, Prifysgol Abertawe

I fyfyrwyr newydd, gall dod i leoliad newydd, cwrdd â phobl newydd ac, efallai, byw oddi cartref am y tro cyntaf, fod yn brofiad heriol a brawychus. Mae cymorth bugeiliol yn hollbwysig i helpu myfyrwyr i ymdopi a thynnu eu sylw at yr adnoddau niferus sydd ar gael yn y Brifysgol. Un o nodau'r teithiau 360 gradd a ddisgrifir yn y poster hwn oedd rhoi cyfle i'r holl fyfyrwyr gymryd rhan mewn taith rithwir o'r campws cyn cyrraedd, fel y gallent ymgynffwrdd â'r amgylchoedd, y llwybrau i adeiladau a'r darlithfeydd. Mae'r teithiau'n cynnwys llwybrau hygyrch i'r darlithfeydd i fyfyrwyr sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Y gobaith oedd, felly, y byddai o leiaf un o'r ffactorau straen sy'n gysylltiedig â bod mewn

amgylchedd newydd yn cael ei liniaru i fyfyrwyr drwy greu'r adnodd cynhwysol a hygyrch hwn.

Cynulleidfa Darged: Bydd y poster hwn o ddiddordeb i staff addysgu a chymorth, ac aelodau staff eraill sy'n helpu i gynllunio canllawiau gwybodaeth i fyfyrwyr neu sy'n cynorthwyo'r broses sefydlu a chymorth bugeiliol.

Arian am ddim (neu sut i gefnogi amrywiaeth drwy fwrsariaethau cyflogadwyedd myfyrwyr)

Simeon Smith, Prifysgol Abertawe

Mae myfyrwyr ag anghenion ychwanegol yn wynebu cynifer o gostau cudd wrth fentro i'r farchnad swyddi - o deithio i gyfweiliadau i geisio cymorth. Yn Academi Cyflogadwyedd Abertawe, rydym yn ymdrechu i wneud y sefyllfa'n fwy teg, drwy gynnig Bwrsariaethau Cyflogadwyedd Myfyrwyr sydd ar gael i bob myfyriwr.

Cynulleidfa Darged: Staff addysgu sy'n ymwneud â dysgu ar sail gwaith. Staff cefnogi myfyrwyr. Pawb sydd â chyfrifoldebau rheolwr llinell.

Stondinau

[Sonocent](#) Audio Notetaker

Offer i helpu myfyrwyr i weithio'n effeithiol gyda'r iaith lafar mewn unrhyw amgylchedd dysgu, gan eu galluogi i ddysgu ac astudio'n fwy llwyddiannus.

[Texthelp](#)

Offer cynorthwyol i wneud darllen, ysgrifennu a mathemateg ar gyfrifiaduron, gliniaduron a llechi yn haws ac yn fwy pleserus.

[Wyvern Business Systems](#) - iView Learning

Tiwtorialau cynhwysfawr ar dechnoleg gynorthwyol, Microsoft Office a G Suite ar gyfer addysg.

[Tiwtora Arbenigol, Prifysgol Abertawe](#)

Mae gwersi arbenigol yn darparu dull cyfannol o gefnogi astudiaeth myfyrwyr a adnabuwyd fel myfyrwyr sy'n profi Anawsterau Dysgu Penodol, Cyflyrau Sbectrwm Awtistig, synhwyraidd (gweld, clywed), iechyd meddwl, cyflyrau meddygol a chorfforol.